COFNODION Y CYNGOR: Busnes Agored
12.30 p.m., Dydd Mawrth 18 Mai 2021
Fe'i cynhaliwyd mewn nifer o leoliadau, trwy feddalwedd Zoom

Busnes Agored y Cyngor – yn cynnwys cofnodion 1 i 15.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Yn Bresennol: John Graystone (yn y Gadair), Caroline Davies, Suzanne Samuel, Tim Palazon, Sonia Reynolds (Is-gadeirydd), Cathy Clark, Gareth Cork, Jenni Jones-Annetts, Jan Tiley, Stephen Nicholls, Judith Evans, Marion Burke, Chris Franks; hefyd Toni Schiavone (Is-gadeirydd) a Steve David - hyd at gofnod 10 yn unig. Roedd cworwm drwy gydol y cyfarfod.
Yn Mynychu: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad), Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni/Clerc); Siôn Aled Owen (cyfieithydd ar y pryd - cyfieithu dilynol).
Ymddiheuriadau: Salamatu Fada, Dona Lewis.

2. Materion Cyflwyniadol

Eglurodd y Cadeirydd nifer o newidiadau fformat bach a sefydlwyd ar awgrym aelodau'r Cyngor – sef cyflwyniad gweledol yn hytrach na dogfen ar gyfer adroddiad y Prif Weithredwr, egwyl o 15 munud yng nghanol y cyfarfod, ac ymgais i rannu'r agenda yn gliriach rhwng eitemau i'w trafod/cymeradwyo a'r rheiny er gwybodaeth yn unig yn bennaf. Cadarnhaodd fod Daryl Leeworthy wedi rhoi'r gorau i'w rôl fel aelod o'r Cyngor ers y cyfarfod blaenorol, a mynegodd werthfawrogiad am ei gyfraniad yn ystod ei ddeiliadaeth. Dylai symud at lwyfan rhithwir Zoom fod wedi galluogi i gyfieithu ar y pryd ddychwelyd i gyfarfodydd y Cyngor hefyd: ymddiheurodd y Clerc na fu hyn yn bosibl, fodd bynnag, ar yr achlysur cyntaf hwn.

3. Ethol Cadeirydd ac Is-gadeiryddion

(Gadawodd John Graystone y cyfarfod ar gyfer y rhan gyntaf o'r eitem hon.) Cadarnhaodd Stephen Thomas mai enwebiad John Graystone oedd yr unig un ar gyfer rôl y Cadeirydd; eglurodd Judith Evans pam yr oedd mor falch o'i enwebu, ar ôl bod yn gweithio gydag ef dros lawer o flynyddoedd a gwybod beth oedd ei alluoedd. Ni wnaed unrhyw gynigion eraill ar gyfer y swydd honno, ac roedd yr holl bleidleisiau ymhlith aelodau'r Cyngor a oedd yn bresennol ac yn pleidleisio o blaid ei barhad yn y rôl honno am un flwyddyn.

Pan ddychwelodd i'r cyfarfod, diolchodd John Graystone i'w gyd aelodau am eu cefnogaeth, a phwysleisiodd yr angen i ystyried cynllunio ar gyfer olyniaeth i'r rôl gadeirio, o ystyried nifer y blynyddoedd olynol yr oedd ef bellach wedi ymgymryd â hi. Yna, gofynnodd am gymeradwyaeth ffurfiol am i Sonia Reynolds a Toni Schiavone gael eu hail-ethol fel cyd Is-gadeiryddion, gan fod y ddau wedi

cytuno i barhau ac nid oedd unrhyw enwebiadau eraill. Rhoddwyd cymeradwyaeth i'w hail-ethol – Sonia Reynolds am un flwyddyn, Toni Schiavone hyd nes diwedd ei ddeiliadaeth fel aelod o'r Cyngor ar 31 Mawrth 2022.

4. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 11 Mawrth 2021 a materion yn codi

Cymeradwywyd cofnodion y trafodion Busnes Agored yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd drwy Microsoft Teams, yn gofnod cywir. Un mater yn codi (cofnod 3) oedd ymddangosiad ysgrif goffa ar gyfer Enid Hankins ym mhapur newydd y *Guardian*. Roedd camau dilynol wedi'u cymryd ar yr holl faterion a restrwyd ar ddiwedd y cofnodion. **O ran cofnod 8 (Ilywodraethwr arweiniol Iechyd a Lles) roedd Cathy Clark wedi mynegi diddordeb i ymgymryd â'r rôl, a byddai Cath Hicks yn cysylltu â hi'n uniongyrchol ynglŷn â hynny.**

Roedd nodyn cefndir ar hanes ac agweddau allweddol ar waddol Tudor Bowen Jones (cofnod 4) wedi'i gylchredeg fel y cytunwyd. Roedd hwn yn egluro'r manylion a'r cyd-destun y tu ôl i ewyllys Mr Bowen Jones, yn ogystal â'r rhesymau pam nad oedd unrhyw gyllid wedi'i wario ohono eto. Rhoddwyd manylion ychwanegol ar Fircroft College (Selly Oak, Birmingham – rhan o gymynroddion teulu Cadbury): eglurwyd nad oedd unrhyw derfyn amser cyfreithiol absoliwt o ran AOC|ALW yn dechrau defnyddio'r incwm, nac o ran y posibilrwydd o drosglwyddo'r gwaddol i Goleg Fircroft. O ran y cynlluniau prosiect i ddefnyddio incwm y gwaddol, roedd cyfarfod cwmpasu cyntaf i'w gynnal gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn ddiweddarach yr wythnos honno. Roedd creu llyfrgell ffisegol yn swyddfa AOC|ALW ym Mryn Menai, Bangor yn ddefnydd ychwanegol (yn hytrach nag amgen) a gynlluniwyd o'r arian hwnnw.

5. Adroddiad y Prif Weithredwr ar gyfer Mai 2021

Dechreuodd Kathryn Robson ei chyflwyniad PowerPoint drwy chwarae cyfweliad o BBC Radio 5 Live yr wythnos flaenorol o Jade Miles o'r Rhyl yn egluro ei phrofiad fel myfyriwr llythrennedd gydag AOC|ALW (tiwtor - Kelly Dace). Disgrifiodd ei hanawsterau yn yr ysgol, cael tri o blant bach, a'i dymuniad i fod yn nyrs fel rhan o brosiect *Word Matters* Radio 5 Live a oedd yn canolbwyntio ar lythrennedd oedolion. Roedd aelodau'n falch o glywed am y newidiadau cadarnhaol a oedd wedi digwydd trwy waith y tiwtor/Sefydliad.

Yna symudodd Kathryn Robson ymlaen at ddatblygiadau strategol. Roedd trafodaethau yn Nhîm Rheoli'r Coleg wedi dod i'r casgliad bod diffyg eglurder o hyd ynglŷn â'n hunaniaeth a'n proffil fel Sefydliad. Roedd angen cyd-frandio mwy ar y statws o fod y Coleg Cymunedol Cenedlaethol a'r Mudiad Gwirfoddol, a byddai hynny'n cyfiawnhau'n gryfach y rôl eiriol yr ymgymerodd y Sefydliad â hi. Roedd cynhyrchiant incwm dros y flwyddyn flaenorol wedi arwain at £1.5 miliwn ychwanegol, mewn grantiau'r llywodraeth yn bennaf: roedd angen o hyd am fentrau a oedd yn fwy masnachol, fodd bynnag, a byddai Canolfan Ragoriaeth Casnewydd yn cynorthwyo yn hynny o beth. Roedd datblygiadau hefyd o ran Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a Chronfa Adfywio Cymunedol y DU – y cronfeydd 'codi'r gwastad', lle'r oedd menter ar y cyd gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot. Roedd y manteision o sefydlu is-gwmni masnachu/hyfforddi yn cael eu hystyried. O ran cydraddoldeb hiliol, roedd nifer o agweddau lle buom yn weithgar, gan gynnwys sgwrs yr elusen Engage Britain yn Sir Benfro. Ac o ran cysylltiadau Ewropeaidd, darparodd y Rhaglen Gyfnewid Addysg Ryngwladol (yn disodli Erasmus+) bosibiliadau cydweithio mewn addysg oedolion – yn unol ag un o gynigion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Mewn trafodaethau a ddilynodd, roedd y trywyddau hyfforddiant a datblygu busnes o ddiddordeb i nifer o aelodau'r Cyngor: byddai gwybodaeth am symudiadau o ran hynny yn cael ei rhannu yng nghyfarfodydd Pwyllgor a'r Cyngor. O ran mentrau Ewropeaidd, awgrymwyd y dylai British Council Cymru a'r Prosiect Cyfuno dan arweiniad Llywodraeth Cymru fod yn gysylltiadau ychwanegol i fynd ar eu

trywydd. Roedd anogaeth Rob Humphreys yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i fod yn 'uniongyrchol' wrth siarad dros addysg oedolion yn bwysig i'w hymgorffori. O ran hynny, roedd cyswllt eisoes wedi'i wneud â'r Gweinidog Addysg newydd, Jeremy Miles, a **chytunwyd i gysylltu ag ef ar Twitter (ac ar gyfryngau eraill hefyd o bosibl) i'w atgoffa am ei gyfraniad yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol AOC|ALW 2018 yng Nghastell-nedd, ac i ysgrifennu llythyr ato i'w longyfarch ar ei apwyntiad.**

Roedd aelodau'n falch o glywed am y datblygiadau hyn: roedd un o'r farn mai dyma oedd y peth agosaf at weledigaeth i'r dyfodol a oedd wedi'i llunio ers creu'r corff cyfunol 6 mlynedd yn gynharach. Cafwyd trafodaeth hefyd am y pwyslais ar y gair 'addysg' yn hytrach na 'dysgu' yn y cyflwyniad, a'r angen i barhau i bwysleisio'r agweddau 'cymunedol' ar ein holl waith.

6. Y Gofrestr Risg ar gyfer Mai 2021

Ar wahân i ddiweddariadau ffeithiol, yr un newid i'r Gofrestr oedd yr ychwanegiad risg a gytunwyd (6.1.4) yn ymwneud ag etholiadau'r Senedd ar 6 Mai. O ystyried bod newid posibl yng ngweinyddiaeth Llywodraeth Cymru wedi cilio bellach yn dilyn yr etholiadau, awgrymwyd bod y risg yn cael ei chyfuno gyda'r risg flaenorol (6.1.3 ar gyfathrebu a marchnata targedig, gan gynnwys ymhlith gwleidyddion) fel risg unedig. Nodwyd bod angen gwirio risg 4.1.3 o ran ei geiriad, gan ei bod yn dal i gyfeirio at GDPR yr UE yn rheoli yn y maes diogelu data.

7. Cyfrifon Rheoli ar gyfer 1 Awst 2020 - 31 Mawrth 2021

Yn yr wythnosau yn dilyn y sefyllfa ariannol a amlinellwyd yn y ffigurau hyn, nid oedd ailgychwyn darparu addysg wedi cynyddu fel y rhagwelwyd yn Nhymor 3 oherwydd cyfyngiadau parhaus ar ddysgu wyneb yn wyneb. Roedd canolfannau a oedd ar agor yn dal yn gyfyngedig i dde ddwyrain Cymru a Phowys: golygai hynny llai o wariant nag a ragwelwyd, sef tuedd a barhaodd i mewn i fis Mai. Er bod hyn yn gadarnhaol o safbwynt arbed costau, roedd yn destun siom bod yr allbwn addysgol yn is na'r disgwyl, ac y byddai'n parhau felly hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol/academaidd. Roedd y cyfansymiau cyflwyno, sef 52% yn y papur, bellach wedi cyrraedd 57% o'r cyfanswm gwreiddiol ar gyfer y flwyddyn (65% oedd y targed diwygiedig a bennwyd mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru).

8. Strategaeth Ystadau, Mai 2021

Cyflwynodd Cath Hicks y Strategaeth, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Adnoddau yn Rhagfyr 2020. Cafodd ei diweddaru i adlewyrchu effeithiau tymor byr Covid-19, er bod y cydbwysedd tymor hwy rhwng gweithio yn y swyddfa a gweithio gartref yn parhau'n ansicr. Yr un newid capasiti a oedd eisoes wedi'i wneud oedd gostyngiad bach mewn gofod yn cael ei rentu yn swyddfa'r Drenewydd i adlewyrchu llai o ddefnydd; roedd ad-drefnu rhwng ein dwy ganolfan yn Abertawe yn bosibl yn y dyfodol hefyd. Eglurodd fod Tŷ Cwrdd y Crynwyr yn Llandrindod yn eiddo newydd ei rentu a ddefnyddiwyd ar gyfer addysgu yn unig: nid oedd unrhyw staff yn gweithio yno. Roedd angen monitro parhad datblygiadau adeiladu gerllaw safle Iard y Cowper yng Nghaerdydd. Mewn trafodaeth, cytunwyd **y dylid cynllunio ar gyfer y disgwyliad y byddai mwy o gyflogeion yn dychwelyd i swyddfeydd, gyda golwg ar ddosbarthu amrywiant i'r cyngor ym Mholisi'r Sefydliad ar gyfer Gweithio ar eich Pen eich Hun.**

Roedd pryniant swyddfa/canolfan addysgu yng Nghasnewydd, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Adnoddau ym mis Mawrth, yn y cam chwiliadau ac arolygon ar adeilad dynodedig yng nghanol y ddinas. Gofynnwyd cwestiwn ynghylch p'un a oedd natur gymunedol y Sefydliad yn anghytûn braidd â brandio adeilad Casnewydd fel prif ganolfan rhagoriaeth. Roedd angen cyfathrebu cytbwys ynglŷn â hyn: yn y

cyfamser, byddai ailagor lleoliadau addysgu eraill - yn ein swyddfeydd, Princess House, Abertawe, ac yn gweithdy gwaith coed Uned 10 ym Mhort Talbot - yn cael eu nodi hefyd pan fyddai'r amser yn dod.

9. Argymhelliad y Pwyllgor Chwilio ar aelod o'r Cyngor ar gyfer gogledd orllewin Cymru

Roedd papur byr wedi'i gylchredeg ar hyn: eglurodd Stephen Thomas natur hybrid braidd y broses, o ystyried mai swydd ranbarthol etholedig ydoedd. **Cymeradwyodd y Cyngor argymhelliad y Pwyllgor Chwilio bod Dr Victory Ezeofor yn dod yn aelod o'r Cyngor ar gyfer y rhanbarth hwn, yn amodol ar gadarnhad yng nghyfarfod Fforwm Rhanbarthol gogledd orllewin Cymru ym mis Mehefin.**

10. Cofnodion y Pwyllgor Adnoddau ar 3 Mawrth 2021

Fe wnaeth Steve Nicholls, Cadeirydd y Pwyllgor, dynnu sylw at y pwynt fod hyd at £500,000 o gronfeydd wrth gefn wedi'i glustnodi o hyd i brynu adeilad yng Nghasnewydd. O ran niferoedd digonol o gyflogeion wedi'u hyfforddi fel swyddogion cymorth cyntaf yn yr holl leoliadau swyddfa (cofnod 4b), roedd cyrsiau cymorth cyntaf wedi'u cynnal yn ddiweddar ar gyfer staff i sicrhau cynnwys swyddfeydd Caerdydd a Glynebwy, a byddai swyddfeydd eraill yn gweld cyrsiau tebyg yn y misoedd i ddod. Nodwyd natur aeddfed proffil staffio'r Sefydliad. O ran y Diweddariad Marchnata (cofnod 6), ailadroddodd ei farn bersonol ynglŷn â phwysigrwydd cael ymgyrch yn defnyddio deunyddiau hysbysebu corfforol yn ystod haf 2021.

11. Adroddiad ar y Cwricwlwm, Mai 2021

Nododd Mark Baines brosiect cymwysiadau'r gwasanaeth sifil a grybwyllwyd ar dudalen 5 yr Adroddiad, a oedd wedi'i roi ar y rhestr fer ond heb ennill Gwobr Broffesiynol Cyflawni Gweithredol yr Adran Gwaith a Phensiynau. Dyfynnwyd enghreifftiau amrywiol yn y papur o gymorth dysgu fel teulu fel yr amlygwyd yn y detholiad Radio 5 Live yn gynharach yn y cyfarfod. O ran y ffigurau cyfredol, a nodwyd ar dudalen 3, sicrhaodd aelodau y byddai'r cyrsiau Dysgu Cenedlaethol yn cynyddu o'u lefelau isel presennol, ond dim ond c30% o'r targed y byddent yn ei gyflawni o hyd erbyn diwedd y flwyddyn. Yn y cyfamser, roedd cyflawni heb achrediad yn dal i gyfrif am bron i hanner yr addysg gyffredinol – yn uwch nag a gynlluniwyd, oherwydd bod yr opsiynau wyneb yn wyneb cyfyngedig yn golygu ei fod wedi cynyddu'n gymesur o ran pwysigrwydd.

12. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 5 Mawrth 2021

Fel Cadeirydd y Pwyllgor, cyfeiriodd Chris Franks at gais y Pwyllgor (cofnod 2) ar gefnogi aelodau staff a oedd yn ddinasyddion yr UE neu ddinasyddion tramor eraill yn eu gofynion cofrestru yn dilyn Brexit. Gydag adroddiadau yn y cyfryngau am seiberdroseddu yn effeithio ar rai colegau addysg bellach, roedd yn amserol bod y pwnc yn ffurfio un o'r meysydd archwilio mewnol i ymchwilio iddo yn y Cynllun Archwilio Mewnol a gadarnhawyd ar gyfer 2021.

13. Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 30 Mawrth 2021

Mynegodd John Graystone ei farn y bu'r digwyddiad ar-lein yn llwyddiannus, bod Nia Parry yn rhagorol yn y rôl hwyluso, bod nifer fwy wedi mynychu na fersiynau ffisegol diweddar ohono, ei fod yn gwbl ddwyieithog, a bod rhai cynigion diddorol. Yna cafwyd trafodaeth fer ynghylch p'un a ddylai digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol barhau ar-lein neu a ddylid mynd yn ôl i fod yn gynulliadau corfforol.

14. Hunanasesu trafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor

Roedd rhai aelodau o'r farn bod y newidiadau i fformat y cyfarfod y cyngor yn welliant. **Byddai copi o gyflwyniad Kathryn Robson yn cael ei gylchredeg i bawb.** Canolbwyntiodd y drafodaeth wedyn ar gyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2021-22 a pha gydbwysedd ddylai fod rhwng cynulliadau rhithwir a chorfforol: **byddai holiadur yn cael ei ddosbarthu cyn cyfarfod mis Gorffennaf y Cyngor i weld beth oedd barn y mwyafrif ar hynny, er mwyn llywio penderfyniadau yn y cyfarfod hwnnw.** Mynegodd nifer o aelodau ei bod yn well ganddynt gael cyfarfodydd Pwyllgor mewn ffurf gorfforol cyn gynted ag y bo'n ymarferol, gan eu bod yn cyfarfodydd llai.

15. Dyddiad cyfarfod y Cyngor yn weddill ar gyfer 2021

- Dydd Mawrth 27 Gorffennaf am 12.30 p.m., fel cynulliad rhithwir

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Enw'r cofnod	Cam gweithredu y cytunwyd arno	Gweithredu gan bwy	Gweithredu erbyn pryd
Cofnod 4	Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 11 Mawrth 2021 a materion yn codi	O ran cofnod 8 (llywodraethwr arweiniol Iechyd a Lles) roedd Cathy Clark wedi mynegi diddordeb i ymgymryd â'r rôl, a byddai Cath Hicks yn cysylltu â hi'n uniongyrchol ynglŷn â hynny.	CH / Cathy Clark	Mehefin 2021
Cofnod 5	Adroddiad y Prif Weithredwr ar gyfer Mai 2021	Cytunwyd i gysylltu â Jeremy Miles ar Twitter (ac ar gyfryngau eraill hefyd o bosibl), i'w atgoffa am ei gyfraniad yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol AOC|ALW 2018 yng Nghastell-nedd, ac i ysgrifennu llythyr ato i'w longyfarch ar ei apwyntiad.	KR	Mai 2021
Cofnod 8	Strategaeth Ystadau	Dylid cynllunio ar gyfer y disgwyliad y byddai mwy o gyflogeion yn dychwelyd i swyddfeydd, gyda golwg ar ddosbarthu amrywiant i'r cyngor ym Mholisi'r Sefyliad ar gyfer Gweithio ar eich Pen eich Hun.	CH	Mehefin 2021
Cofnod 9	Argymhelliad y Pwyllgor Chwilio ar aelod o'r Cyngor ar gyfer gogledd orllewin Cymru	Cymeradwyodd y Cyngor argymhelliad y Pwyllgor Chwilio bod Dr Victory Ezeofor yn dod yn aelod o'r Cyngor ar gyfer y rhanbarth hwn, yn amodol ar gadarnhad yng nghyfarfod Fforwm Rhanbarthol gogledd orllewin Cymru ym mis Mehefin.	ST / CH	Mehefin 2021
Cofnod 14	Hunanasesu trafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor	Byddai copi o gyflwyniad Kathryn Robson yn cael ei gylchredeg i bawb. Byddai holiadur yn cael ei ddosbarthu cyn cyfarfod mis Gorffennaf y Cyngor i weld beth oedd barn y mwyafrif, er mwyn llywio penderfyniadau am gynylliadau rhithwir neu gorfforol yn y cyfarfod hwnnw.	ST ST	Mai 2021 Mehefin 2021